

# Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

## Swyddog Meddiannaeth a Llwythi Annormal y Rhwydwaith

Pecyn Recriwtio

# Croeso gan y Pennaeth Gwasanaeth



MARK MCNAMARA
PENNAETH GWASANAETH ACGCC

Yn yr ACGCC rydym yn helpu i greu rhwydwaith ffyrdd sy'n cysylltu pobl a lleoedd mewn modd mwy diogel,  a mwy dibynadwy.

Rydym yn gweithio ar brosiectau ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru sy'n mynd i'r afael â rhai o heriau mwyaf tyngedfennol y wlad. O seilwaith cymhleth, cynyddu anghenion trafnidiaeth, a newid yn yr hinsawdd – rydyn ni'n cyfuno arloesi, arbenigedd a thechnoleg i wneud Gogledd a Chanolbarth Cymru yn lle gwell i fyw, gweithio ac ymweld ag ef.

Gallwch gyfrannu at waith fydd yn cael effaith gadarnhaol barhaol ar eich cymuned leol gyda sefydliad lle mae amrywiaeth, tegwch a chynhwysiant yn werthoedd a rennir. Rydym wedi ymrwymo i feithrin amgylchedd gwaith sy'n gefnogol, yn barchus ac yn gynhwysol, gyda chyfleoedd gwych ar gyfer twf.

Beth am roi cynnig arni? Byddem yn hapus iawn i ystyried eich cais i ymuno â'n tîm medrus, brwdfrydig a chyfeillgar.




# Ble rydym wedi'n lleoli

## Dros 250 o weithwyr ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru.

- **Aberaeron, Ceredigion**
- **Bangor, Gwynedd**
- **Conwy**
- **Dolgellau, Gwynedd**
- **Helygain, Wrecsam**
- **Llandrindod, Powys**
- **Drenewydd, Powys**





# Teitl y swydd: Swyddog Meddiannaeth a Llwythi Annormal y Rhwydwaith

Ydych chi'n mwynhau her ac yn hoffi amrywiaeth? Os felly, yna efallai mai'r swydd hon yw'r peth i chi. Rydym yn chwilio am S**wyddog Meddiannaeth a Llwythi Annormal y Rhwydwaith** i ymuno â thîm cyffrous sy'n tyfu.

**Cyflog:** S4 (SCP 26-28) £34,834 - £36,648

**Cyfnod:** Parhaol

**Lleoliad: un o'r lleoliadau isod:**
Llandrindod, Aberaeron, DreNewydd

**Dyddiad cau:** 12/09/2024

**Ffurflenni cais a manylion pellach ar gael trwy wefan Cyngor Gwynedd www.gwynedd.llyw.cymru neu drwy ffonio 01286 679076.**

**Ymgeisiwch**

# Pwrpas y swydd

Dirprwyo i Reolwr Meddiannaeth y Rhwydwaith, cynorthwyo gyda'r gwaith o reoli meddiannaeth y rhwydwaith a rheoli llwythi annormal ar ran yr Asiant a sicrhau bod ACGChC yn cyflawni'r dyletswyddau statudol dirprwyedig, gorfodaeth reolaethol, polisïau, prosesau a gofynion eraill ynghylch. Cynorthwyo i ddarparu cyngor polisi a deddfwriaethol arbenigol a chefnogaeth i Lywodraeth Cymru a chyngor technegol gweithredol a chefnogaeth i dimoedd Busnes a Gweithrediadau Rhwydwaith.



# Cyfrifoldebau

**Dirprwyo i Reolwr Meddiannaeth y Rhwydwaith.**

Mynychu'r isod ar ran Rheolwr Meddiannaeth y Rhwydwaith:

Grŵp gwaith stryd CSS, cyfarfodydd Pwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chwmnïau Gwasanaeth (HAUC) lleol a chenedlaethol, a chyfarfodydd Cydlynu Awdurdodau Partner (AP) yn ôl yr angen**.**

Cynrychioli'r Asiant ar faterion yn ymwneud â meddiannaeth y rhwydwaith wrth gysylltu ag eraill gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'u cyflenwyr, Darparwyr Gwasanaeth Awdurdodau Partner, Dylunwyr, Contractwyr, Cwmnïau Gwasanaeth, Datblygwyr, Asiant Cefnffyrdd De Cymru, Highways England, A55 UK Highways Ltd, Awdurdodau Priffyrdd cysylltiedig, GeoPlace, yr Heddlu a Gwasanaethau Brys eraill, a mynychu cyfarfodydd y Pwyllgor Cwmnïau Gwasanaeth ac Awdurdodau Priffyrdd.

**Rheoli Meddiannaeth y Rhwydwaith**

Cynorthwyo gyda swyddogaethau rheoli gwaith stryd yn cynnwys y Rhestr Strydoedd Cenedlaethol, Data Stryd Ychwanegol, gosod hysbysiadau, cydlynu, archwiliadau, adferiadau, rheoli arwynebedd ffordd, rheoli digwyddiadau, cyfnodau embargo.

Cynorthwyo gyda rheoli llwythi annormal;

Cynorthwyo gyda rheoli gorchmynion a hysbysiadau traffig parhaol / dros dro;

Cynorthwyo gyda gofynion priffyrdd yn ymwneud â rheoleiddio a gorfodaeth gan gynnwys arwyddion anghyfreithlon, rhwystrau, gwaith, coed 'peryglus', caniatâd a thrwyddedau gwaith stryd ar gyfer sgipiau a sgaffaldiau, gwerthu mewn encilfeydd, caniatâd signalau traffig dros dro;

Cynorthwyo gyda lleihau tagfeydd ac aflonyddwch ar y rhwydwaith drwy adnabod problemau a chysylltu â budd-ddeiliaid;

Cynorthwyo gyda datblygiad a gweithrediad prosesau ar gyfer rhoi cyngor i LC ynghylch ceisiadau Rheolaeth Ddatblygu gyferbyn â'r rhwydwaith cefnffyrdd.

Cynorthwyo Rheolwr y Rhwydwaith, y Rheolwr Cyflawni a staff eraill yr Asiant gyda materion rheoli rhwydwaith ehangach, er enghraifft:

- Rheoli digwyddiadau e.e. cynlluniau a phrosesau wrth gefn;
- Rhaglennu gwaith.
- Rheolaeth Ddatblygu

Cynorthwyo gyda diogelu isadeiledd cefnffyrdd rhag niwed e.e. rheoli cofnodion rhestr eiddo ar gyfer offer tanddaearol ac ar y ddaear ar gefnffyrdd a gofynion arbennig i ymgymerwyr statudol;

Cynorthwyo gyda'r gwaith o greu a rheoli systemau rheoli meddiannaeth y rhwydwaith, polisïau a phrosesau;




## Dylech gyfeirio at y meini prawf penodol i'r swydd hon yn eich ffurflen gais.

## Meini prawf penodol i’r swydd

Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu da
Yn bendant
Yn gallu arwain pobl eraill yn effeithiol
Yn gallu gweithio a chyfrannu’n effeithiol fel rhan o dîm
Yn gallu trefnu llwyth gwaith a pherfformio i gwrdd â therfynau amser
Yn gallu gweithio dan bwysau
Yn ymroddgar, yn frwdfrydig ac â’r gallu i gymell ei hun
Sgiliau rhyngbersonol da

## Cymwysterau a hyfforddiant perthnasol

HNC neu gyfystyr mewn disgyblaeth berthnasol

## Profiad perthnasol

Profiad o weithio gyda systemau rheoli Meddiannaeth y Rhwydwaith

## Sgiliau a gwybodaeth arbenigol

Dealltwriaeth dda o Ddeddf Priffyrdd 1980
Dealltwriaeth dda o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991
Sgiliau TG rhagorol gan gynnwys arbenigedd mewn taenlenni.
Arloesol gyda sgiliau datrys problemau da.
Trwydded yrru lawn y DU

## Gofynion ieithyddol

Mae’r gallu i siarad Cymraeg yn ddymunol a Saesneg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon

# Gweithio i  Asiant Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru

Mae ACGCC yn lle cyffrous i weithio.  Mae gennym bolisïau blaengar a rydym wedi ymrwymo i hyfforddi a



- 26 dyddiau o wyliau blynyddol y flwyddyn.
- 8.5 diwrnod o wyliau cyhoeddus a statudol.
- Gweithio’n hybrid o leiaf 2 ddiwrnod yn y swyddfa.
- Oriau gweithio hyblyg.




- Cyflog cynyddol.
- Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol Ceir rhagor o wybodaeth ar wefan [Cronfa Bensiwn Gwynedd].



- Cyfle i weithio mewn lleoliadau prydferth ar draws Gogledd a Chanolbarth Cymru gan gynnwys 1 parc cenedlaethol, 50 gwarchodfa natur a 1,680 milltir o arfordir trawiadol



- Cynlluniau cymorth i brynu car ac i feicio i’r gwaith
  Arbediadau siopa bwyd, gwyliau, mynd allan i fwyta, DIY, offer trydanol, yswiriant, moduro, a llawer mwy!



- Ystod eang o gyfleoedd hyfforddi a datblygu mewnol ac allanol.
- Diwrnod yr wythnos i gwblhau gradd prifysgol.
- Cyfraniad tuag at aelodaeth o gyrff proffesiynol sy'n berthnasol i'r gwaith



- Gwasanaeth Cwnsela MEDRA - gwasanaeth cwnsela cyfrinachol am ddim i staff.
- Absenoldeb hael ar gyfer mamolaeth, tadolaeth a mabwysiadu.